Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Ymgyrchu dros fyd natur – Cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **Gallech weithio ar hyn dros sawl gwers; yn gyntaf, yn trafod beth yw'r cyfryngau cymdeithasol a sut i gyflwyno ymgyrch lwyddiannus cyn symud ymlaen i lunio negeseuon allweddol a chynllunio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar bwnc o'ch dewis.** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn gweld dysgwyr yn ymgymryd â rôl arbenigwyr y cyfryngau cymdeithasol. Cynllunio, paratoi a chynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol o bosib er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion neu bwnc amgylcheddol drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol eu lleoliad.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

### Y Dyniaethau

- **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
- **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Bydd cwblhau'r gweithgaredd hwn yn cynnig cyfleoedd i gyflawni meysydd canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

### Dinasyddiaeth

- Hunaniaeth, delwedd ac enw da
- Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth
- Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein

### Rhyngweithio a chydweithio

- Cyfathrebu
- Cydweithredu
- Cyfnewid a rhannu gwybodaeth

### Cynhyrchu

- Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digido
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso a gwella cynnwys digidol

## Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:

- Gosod amcanion cyfathrebu CAMPUS.
- Nodi a llunio negeseuon allweddol.
- Nodi cynulleidfaoedd targed.
- Archwilio dulliau cyfathrebu gwahanol.
- Creu a chynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol o bosib i gyfleu eu negeseuon allweddol.
- Gwerthuso pa mor effeithiol oedd eu hymgyrch a'r sgiliau cyfathrebu.
- Cynnydd yn eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am y pwnc amgylcheddol maent wedi'i ddewis.

## Adnoddau ac offer

- Papur, pensiliau a beiros.
- Mynediad i raglenni meddalwedd megis Word, Google Docs, PowerPoint, Google Slides, Excel neu Google Sheets.
- Mynediad i'r rhyngrwyd i ymchwilio i'w pwnc a dod o hyd i ddelweddau priodol.
- Mynediad dan oruchwyliaeth i gyfrif cyfryngau cymdeithasol eich lleoliad os ydynt yn mynd i gynnal eu hymgyrch cyfryngau cymdeithasol eu hunain neu os yw aelod o staff yn mynd i bostio negeseuon ar eu rhan.
- Cyflwyniad PowerPoint – Ymgyrchu dros fyd natur: Cynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol (opsiynol) i'ch helpu i arwain eich dysgwyr drwy'r broses.

## Yr hyn sydd angen ei wneud

### 1. Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?

Gan weithio mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dysgwyr drafod a nodi'r canlynol:

- Beth maent yn ei ddeall o ran y term 'y cyfryngau cymdeithasol'?
- Beth mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ei wneud?
- Pam bod pobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?
- Sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wahanol i anfon llythyr?
- Beth yw manteision ac anfanteision y cyfryngau cymdeithasol?
- A all eich dysgwyr enwi unrhyw offerynnau a phlatfformau poblogaidd mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol?

Technoleg gyfrifiadurol sy'n galluogi rhannu syniadau, meddyliau a gwybodaeth ymhlith pobl drwy adeiladu rhwydweithiau a chymunedau rhithwir yw'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae offer a phlatfformau poblogaidd y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys y canlynol:

- **Blogiau:** Platfform ar gyfer deialog a thrafodaethau hamddenol ar bwnc neu farn benodol.
- **Facebook:** Mae defnyddwyr yn creu proffil personol ac yn ychwanegu defnyddwyr eraill fel ffrindiau, ac yn cyfnewid negeseuon, gan gynnwys diweddariadau statws. Mae brandiau'n creu tudalennau a gall defnyddwyr Facebook ''hoffi'' tudalen y brand.
- **Twitter:** Platfform rhwydweithio cymdeithasol sy'n caniatáu i grwpiau ac unigolion gysylltu drwy gyfnewid negeseuon byr.
- **YouTube/Vimeo:** Gwefannau cynnal a gwylio fideos.
- **Flickr:** Gwefan i bostio delweddau a fideos a chymuned ar-lein.
- **Instagram:** Ap sy'n rhannu ffotograffau a fideos am ddim. Mae'n galluogi defnyddwyr i olygu eu lluniau gan ddefnyddio fframiau ac effeithiau arbennig a'u rhannu ar amrywiaeth o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

## 2. Y briff ar gyfer ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol

Dylech esbonio wrth eich dysgwyr eu bod yn arbenigwyr y cyfryngau cymdeithasol. Hoffai'r 'cleient' – eich lleoliad – dderbyn cymorth i gynllunio a pharatoi ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fater neu bwnc amgylcheddol drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol ei leoliad.

Gallai eu hymgyrch gynnwys y canlynol:

- Tynnu sylw at broblem amgylcheddol a datrysiad posib
- Dathlu'r amgylchedd naturiol, cynefin neu rywogaeth
- Esbonio techneg rheoli'r amgylchedd naturiol neu broses naturiol
- Galw ar bobl eraill i weithredu i helpu i bennu ymddygiadau sydd o blaid yr amgylchedd

Gan weithio mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dysgwyr a oes pwnc penodol yr hoffent godi ymwybyddiaeth yn ei gylch. Neu, gallwch ddyrannu'r pwnc neu roi sawl pwnc i'r dysgwyr ddewis ohonynt.

## 3. Gwybodaeth gefndirol

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi cytuno ar bwnc, gofynnwch iddynt ymchwilio i'r pwnc, gan ystyried y chwe elfen ganlynol a llunio ffeil ffeithiau:

- Am bwy neu beth mae'r ymgyrch? Ar bwy neu beth mae'n effeithio?
- Beth sydd wedi digwydd neu sy'n digwydd ar hyn o bryd? Beth mae hyn yn ei olygu? Beth yw'r ffeithiau allweddol?
- Beth sydd wedi digwydd, neu beth sy'n digwydd ar hyn o bryd? A yw wedi bod yn digwydd am gyfnod hir? A yw'n ffenomen newydd?
- Ble mae wedi digwydd, neu a yw'n digwydd ar hyn o bryd? A yw'n fater lleol? Cenedlaethol? Rhyngwladol?
- Pam mae'n digwydd neu pam mae wedi digwydd? Pam mae angen i'r cyhoedd wybod amdano?
- Sut gallwch annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgyrch? A yw'ch dysgwyr am i bobl weithredu? Dysgu rhywbeth newydd? Newid eu harferion?

Os ydych yn cwblhau'r gweithgaredd fel dosbarth, gallai grwpiau gwahanol fynd i'r afael â phwyntiau gwahanol.

## 4. Gofynnwch i'ch dysgwyr osod amcanion CAMPUS ar gyfer eu hymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol

Bydd gosod amcanion ar gyfer eu hymgyrch yn sicrhau bod gan eich dysgwyr weledigaeth o'r hyn maent am ei gyflawni, a byddant hefyd yn darparu meincnod er mwyn iddynt werthuso eu hymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Gall defnyddio amcanion CAMPUS helpu eich dysgwyr i osod eu hamcanion.

**Cyflawnadwy** - Does dim diben ceisio cynllunio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arbed dŵr i ddiogelu'r amgylchedd a chyflenwadau dŵr ledled y byd yn y dyfodol. Er ei fod yn nod gwych, byddai'n anodd iawn cyflawni hyn. Beth am geisio codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni dysgwyr sy'n gysylltiedig â'ch lleoliad?

**Amser** – A yw'r hyn maent wedi'i gynllunio'n gyflawnadwy yn yr amser sydd ganddynt? Anogwch eich dysgwyr i osod terfynau amser i gwblhau tasgau - bydd hyn yn eu helpu i flaenoriaethu eu tasgau a lleihau'r risg o gael eu gorlwytho.

**Mesuradwy** - Rydym am weld cynnydd o 5% yn nifer ein dilynwyr ar Twitter.

**Penodol** - Rydym am gynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arbed dŵr i helpu i ddiogelu'r amgylchedd a chyflenwadau dŵr yn y dyfodol.

**Perthnasol** – Y diben yw cynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o fater neu bwnc amgylcheddol. Os mai eu cynllun yw codi ymwybyddiaeth o fwyty newydd sy'n agor, yna nid yw'n berthnasol.

## 5. Negeseuon allweddol

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi cael y cyfle i nodi eu pwnc ac ymchwilio iddo, gan weithio yn eu grwpiau, gofynnwch i'ch dysgwyr drafod a phenderfynu ar y neges neu'r negeseuon maent am eu cyfleu. Beth maent am i'w hymgyrch gyflawni? Gofynnwch iddynt nodi eu syniadau: Dyma'r negeseuon allweddol:

- **Cryno:** Hawdd ei deall? Sicrhewch fod eich iaith yn gryno, yn broffesiynol ac yn nodi'r pwynt yn gyflym.
- **Syml:** Iaith syml; dim llawer o jargon nac acronymau.
- **Cofiadwy:** Hawdd ei chofio a'i hailadrodd.
- **Cadarnhaol:** Cyflwyno datrysiadau i ysgogi camau gweithredu yn lle problemau.

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi nodi'r negeseuon allweddol ar gyfer eu hymgyrch, mae'n amser dechrau ystyried sut gallant ddod â'u hymgyrch yn fyw.

## 6. Pwy yw'r gynulleidfa darged?

Cynulleidfa darged y cyfryngau cymdeithasol yw'r grŵp penodol o bobl rydych am ei gyrraedd gyda'ch postiadau. Dyma'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb yn eich cynnwys. Mae'r gynulleidfa'n dibynnu ar y neges a ph'un a oes grŵp defnyddwyr yn gysylltiedig â'r neges honno. Er enghraifft, os yw'r ymgyrch yn ymwneud â lleihau baw cŵn, efallai mai'r gynulleidfa darged fydd pobl sy'n mynd â chŵn am dro. Os yw'r ymgyrch yn annog pobl i fynd â'u sbwriel adref pan fydd teuluoedd yn mynd am bicnic, yna gallai'r gynulleidfa fod yn rhieni. Gofynnwch i'ch dysgwyr nodi pwy fydd y gynulleidfa darged ar gyfer eu hymgyrch.

## 7. Risgiau/Heriau

Efallai na fydd yn ymddangos bod cynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys llawer o risg, ond buan y dewch i weld fod ystyried risg yn hanfodol i gyfathrebu. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried y canlynol:

1. Beth allai fynd o'i le gyda'u hymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol?
2. Beth yw tebygolrwydd ac effaith rhywbeth yn mynd o'i le?
3. Beth allant ei wneud i leihau'r risg?

## 8. Dewis platfform y cyfryngau cymdeithasol

Pa blatfform cyfryngau cymdeithasol y bydd eich dysgwyr yn ei ddefnyddio i rannu eu negeseuon? Efallai y byddant wedi'u cyfyngu i'r platfformau y mae eich lleoliad yn eu defnyddio. Bydd dewis eu cynulleidfa darged a nodi eu negeseuon allweddol yn helpu eich dysgwyr i benderfynu pa blatfform cyfryngau cymdeithasol sydd orau ar gyfer eu hymgyrch. Bydd eu dewis o blatfform cyfryngau cymdeithasol hefyd yn rhoi syniad iddynt o sawl postiad y bydd angen iddynt eu llunio, ym mha arddull ac uchafswm nifer y nodau fydd ganddynt i'w defnyddio.

## 9. Cynllunio eu hymgyrch

**Bydd ymgyrch lwyddiannus yn gwneud y canlynol:**

- Dal sylw
- Bod yn ddeniadol
- Cynnig rhywbeth newydd neu syniad/golwg newydd ar bwnc
- Bod yn llawn cyffro neu'n ddifyr
- Cyflawni'r amcanion a nodwyd ar y dechrau

Sut bydd eich dysgwyr yn sicrhau bod eu hymgyrch yn bodloni'r meini prawf hyn? Gofynnwch i'ch dysgwyr nodi eu syniadau.

**Tôn – Sut bydd y gynulleidfa'n ymateb i'r ymgyrch?**

Isod ceir rhai tonau y bydd eich dysgwyr am eu defnyddio o bosib:

- Dramatig – yn effeithio ar y gynulleidfa yn emosiynol.
- Addysgiadol – ffeithiol, clir a chryno.
- Sgyrsiol – hamddenol a gonest, fel eich bod yn siarad â rhywun rydych yn ei adnabod eisoes.
- Pendant – yn dwyn perswâd ac yn annog y gynulleidfa i weithredu.
- Doniol – yn gwneud i'r gynulleidfa chwerthin neu wenu.
- Ciwt/gwneud i rywun deimlo'n dda — rhywbeth sy'n gwneud i'r gynulleidfa fynd "owww!".
- Difyr – ceisio rhoi gwybodaeth a diddanu. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu eu bod yn gyflwynwyr ar Heno, S4C.
- Ysbrydoledig - yn defnyddio ysbrydoliaeth ac iaith ysgogol i ysgogi camau gweithredu.

Dylech atgoffa dysgwyr eu bod yn cynrychioli cleient a bod angen iddynt sicrhau bod yr hyn maent yn ei 'ddweud' yn yr ymgyrch yn briodol.

## 10. Drafftio postiadau

Gofynnwch i'ch dysgwyr ddrafftio eu postiadau gan ddefnyddion ein **Taflen Waith – Ymgyrchu dros fyd natur: Cynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol** o fewn eu grwpiau, dylent benodi rhai aelodau i fod yn gyfrifol am y darluniau ar gyfer eu hymgyrch ac eraill i lunio a golygu'r testun.

**Dylai ymgyrch gynnwys llawer o arddulliau a thechnegau gweledol.**

Heddiw, mae pobl yn dueddol o fethu â chanolbwyntio am gyfnodau hir, felly mae defnyddio delweddau'n ffordd wych o gael sylw a helpu'r gynulleidfa i gofio neges eich dysgwyr. Dengys ymchwil fod postiadau â chynnwys gweledol yn cael eu rhannu'n fwy, ac yn cael mwy o sylw a chliciau na chynnwys arall ar y cyfryngau cymdeithasol.

Er mwyn dal sylw eu cynulleidfa ac i leihau'r risg bod y gynulleidfa'n colli diddordeb oherwydd ailadrodd, dylai dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o ddelweddau yn ystod eu hymgyrch. Gallai eich dysgwyr gynnwys y canlynol:

- Ffotograffau, ffilmiau a darluniau
- Cynrychiolaeth weledol o wybodaeth neu ddata gwyddonol
- Dyfyniadau neu gyfweliadau gweledol gyda phobl neu arbenigwyr
- Fideo o berson enwog neu ddylanwadwr (rhywun sy'n hynod boblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol) yn sgwrsio am y neges allweddol
- Animeiddiad – darluniad neu animeiddiad (2D, 3D, ac ati) gan ddefnyddio cymeriadau sy'n debyg i debyg i rai mewn cartŵn.

Dylai dysgwyr sicrhau bod adnoddau heb hawlfraint neu fod ganddynt ganiatâd i'w defnyddio. Mae ffotograffau, graffigau a fideos ar gael am ddim ar wefannau megis Pixabay neu Pexels. Mae gwefannau megis Canva yn cynnig platfform dylunio graffeg i greu darluniau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau, posteri, dogfennau a chynnwys gweledol arall. Mae gwefannau eraill ar gael.

**Llunio sgript ar gyfer postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.**

Mae'r sgript yn cynnwys y geiriau sydd wedi'u hysgrifennu yn y postiad.

Dylai eich dysgwyr ddechrau eu postiad gyda **phennawd**:

- Addo budd e.e. Gall bod yn yr amgylchedd naturiol ddarparu buddion lles.
- Defnyddio rhifau e.e. Tair ffordd o annog rhagor o fywyd gwyllt i ddod i'ch tir.
- Gofyn cwestiwn e.e. Beth yw eich hoff system twyni tywod?
- Creu ymdeimlad o frys e.e. Tri pheth y gallwch eu gwneud i leihau eich ôl troed carbon heddiw.
- Ennyn chwilfrydedd e.e. Tri pheth nad oeddech yn ei wybod am ddraenogod.

Mae **ail bennawd** yn rhoi syniad gwell i'r gynulleidfa am y cynnwys ac ail gyfle i ddal ei sylw ac ennyn ei diddordeb.




**Gall emojis a nodau arbennig** sicrhau bod postiad yn fwy amlwg ac maent yn atgyfnerthu neges. Gall ychwanegu saeth neu fys sy'n pwyntio at ddolen yn eich postiad helpu i dynnu sylw, ond peidiwch â gor-wneud hyn neu gall eich cynulleidfa ddioddef o ormodedd o emojis 😠.

Os yw'n berthnasol, a bod gan eich dysgwyr **ddyfyniad** bachog o'u herthygl, gofynnwch iddynt ei roi yn nhestun y postiad i dynnu sylw darllenwyr.

Gall **toriadau llinell** helpu i dynnu sylw at bostiad drwy gynyddu'r uchder fertigol, gan ei wneud yn fwy amlwg yn weledol yn y ffrwd. Mae'r man gwyn ychwanegol yn gwneud y testun yn gliriach ac yn haws ei ddarllen.

**Hashnodau** - Dylai eich dysgwyr gynnwys hashnodau priodol yn eu postiad. Gair allweddol neu bwnc y mae modd clicio arnynt yw hashnodau megis #twynitywod, #WythnosDysguAwyrAgoredCymru neu #MirMes. Pan fydd rhywun yn clicio ar hashnod mewn unrhyw bostiad, bydd yn gweld yr holl bostiadau sy'n cynnwys yr hashnod hwnnw. Gall hashnodau bwysleisio neges, cynyddu gwelededd postiadau a helpu eich dysgwyr i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Bydd **tagio** unigolyn, sefydliad neu unrhyw endid sydd â phroffil cymdeithasol sy'n cefnogi neges eich dysgwyr yn caniatáu i'r dysgwyr ymgysylltu â hwy. Pan fyddant yn eu tagio mewn postiad, mae'n wahoddiad iddynt gymryd rhan a chefnogi'r ymgyrch. Os ydynt yn llwyddiannus a'u bod yn rhannu postiad eich dysgwyr neu'n cyflwyno sylwadau arno, gall eu hymgysylltiad weithredu fel ffurf ar ddilysu.

**Byddwch yn fachog** - Os ydynt yn rhy fyr, bydd siawns na fydd pobl yn edrych ar bostiadau eich dysgwyr. Os ydynt yn rhy hir, efallai y byddant yn agosáu at derfyn geiriau'r platfform ac y bydd y gynulleidfa'n colli diddordeb. Does dim byd gwaeth na llunio'r postiad perffaith, ac yna sylweddoli ei fod yn rhy hir a bod angen ei gwtogi.

**Iaith** – a fydd eich dysgwyr yn postio'n ddwyieithog? Neu mewn un iaith yn unig? Os ydynt yn postio'n ddwyieithog, a fyddant yn llunio un trydariad dwyieithog neu ddau bostiad ar wahân?

**Gwiriadau trylwyr** - Dylai dysgwyr gael eu hannog i sicrhau y bydd eu hymgyrch yn cyflawni eu negeseuon allweddol. Mae'n llawer haws gwneud newidiadau yn y cam cynllunio na gwneud newidiadau unwaith y bydd yr ymgyrch yn mynd yn fyw ac yn cael ei rhannu! Gallant ofyn i athrawon, grwpiau eraill neu arbenigwr yn y maes am adborth.

- A yw'r neges yn glir?
- A yw'r hyn maent yn ei 'ddweud' yn yr ymgyrch yn briodol? – dylai wella enw da'r cleient ac nid ei niweidio.
- A ydynt wedi defnyddio llai o nodau na'r nifer uchaf y mae'r platfform cyfryngau cymdeithasol yn ei ganiatáu?
- A yw'r neges/negeseuon allweddol yn ymddangos yn llwyddiannus yn ystod yr ymgyrch?
- A yw'r arddull, y dôn a'r delweddau'n gweithio?
- Gwiriwch fod y gramadeg yn y testun, y dolenni, yr hashnodau a'r tagiau'n gywir.
- A yw'r emojis yn cael eu defnyddio'n briodol ac a ydynt yn ychwanegu gwerth?
- A yw'r delweddau sy'n cyd-fynd â'r postiadau'n briodol, yn dal eich llygad ac yn adrodd stori?

## 11. Amserlennu eu postiadau

Mae amserlennu yn caniatáu i'ch dysgwyr gynllunio ymlaen llaw pryd a faint o'r gloch y bydd eu postiadau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi. Mae gan y rhan fwyaf o blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol offerynnau amserlennu, fel y gall eich dysgwyr baratoi eu postiadau ymlaen llaw a dewis pryd i'w postio.

Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried eu hamserlennu postio. Am ba hyd y bydd yr ymgyrch yn rhedeg? Diwrnod? Wythnos? Mis? A fydd yn rhedeg yn y cyfnod cyn digwyddiad neu yn ystod adeg benodol o'r flwyddyn?

- Bydd postio ar adeg pan fyddant yn meddwl bod eu cynulleidfa'n fwyaf tebygol o edrych ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'r siawns bod postiadau eich dysgwyr yn cael cymaint o sylw â phosib. Er enghraifft, os yw eich dysgwyr yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad rhieni sy'n gweithio, efallai mai'r peth gorau fyddai amserlennu eu postiadau ar gyfer adeg o'r dydd pan fo rhieni'n debygol o fod yn ymlacio ac yn edrych ar eu cyfrifon ar ôl diwrnod yn y gwaith.
- Bydd cael amserlen wedi'i llunio ddigon ymlaen llaw cyn yr ymgyrch yn galluogi eich dysgwyr i sicrhau eu bod yn postio'n gyson yn ystod eu hymgyrch.
- Gall postiadau wedi'u hamserlennu ryddhau amser i ddysgwyr ymateb i sylwadau ac unrhyw beth sy'n codi'n annisgwyl yn ystod eu hymgyrch. Mae sicrhau bod rhai o'u postiadau neu bob un ohonynt wedi'u hamserlennu yn gweithredu fel cynllun wrth gefn os bydd aelodau'r grŵp a oedd fod i bostio ar y dydd yn sâl. Bydd y postiadau'n dal i gael eu cyhoeddi yn ôl y cynllun.

Fodd bynnag, dylech atgoffa'ch dysgwyr nad oes rhaid iddynt ddefnyddio offer amserlennu, neu fod modd iddynt ddewis amserlennu rhai postiadau gyda rhai postiadau'n cael eu llunio a'u postio wrth i'r ymgyrch fynd yn fyw fel y gallant ymateb i ddigwyddiadau mewn ffordd organig. Mae'n bwysig bod peth hyblygrwydd fel y gall eich dysgwyr ymateb i'w cynulleidfa mewn amser real.

Gall dysgwyr gynllunio a threfnu eu hamserlen bostio gan ddefnyddio'n **Taflen Waith - Ymgyrchu dros fyd natur: Cynnal ymgyrch dros y cyfryngau cymdeithasol**.

## 12. Yn ystod yr ymgyrch

Dylai eich dysgwyr gynllunio i wirio eu hamserlenni o leiaf unwaith y dydd i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'u dilynwyr mewn amser real. Efallai y bydd rhai postiadau perthnasol gan bobl eraill y gallant eu rhannu neu eu hoffi. Dylent sicrhau bod aelod penodol o'r grŵp ar ddyletswydd bob dydd i fonitro llwyddiant eu postiadau neu gynnwys hyn yn rhan o waith y diwrnod er mwyn trafod fel grŵp am sut i ymateb.

Pa bostiadau sy'n perfformio orau? A wnaeth postiad ag arddull benodol neu un a gafodd ei bostio ar adeg benodol o'r dydd dderbyn mwy o sylw na phostiadau eraill? Bydd monitro yr ymgyrch mewn amser real yn rhoi tystiolaeth i'r dysgwyr bod angen iddynt newid eu tactegau bydd yn caniatáu iddynt wneud newidiadau cyn i'r ymgyrch ddod i ben.

## 13. Mesur llwyddiant

Sut bydd eich dysgwyr yn gwybod a yw eu hymgyrch wedi bod yn llwyddiannus? Er mwyn monitro llwyddiant pob postiad a'r ymgyrch yn ei chyfanrwydd, mae'n hanfodol bod mesurau llwyddiant yn cael eu nodi a'u monitro. A wnaethant gyflawni eu hamcan i godi ymwybyddiaeth ynghylch mater neu bwnc amgylcheddol? Os gwnaethant, gwych, os na wnaethant – pam?

- Os mai nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o rywogaethau prin yna bydd monitro nifer y rhyngweithiadau a gafodd y postiadau e.e. hoffi, rhannu a gadael sylwadau neu ddefnydd cynyddol o'r hashnod yn ffordd o fesur llwyddiant.
- Byddai cynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalen we yn dilyn rhannu dolen yn ystod eu hymgyrch hefyd yn fesur o lwyddiant.
- Faint o ddefnyddwyr wnaeth wylio'r fideo gafodd ei rannu?
- Beth oedd cyrhaeddiad yr ymgyrch? Faint o bobl welodd eu postiadau? 5? 500? 5,000? Po fwyaf o bobl a welodd bostiadau eich dysgwyr, y mwyaf yw'r cyrhaeddiad a'r mwyaf llwyddiannus y bu eu hymgyrch.
- A oedd y trydariad a oedd yn cynnwys hashnod yn fwy llwyddiannus na'r trydariad heb yr hashnod?
- A wnaeth trydariad llawn hwyl wneud yn well nag un mwy confensiynol?
- Os mai nod yr ymgyrch oedd annog pobl i gasglu eu baw cŵn mewn ardal benodol, yna bydd angen monitro mwy ymarferol 'cyn ac ar ôl yr ymgyrch'.

Mae gan y rhan fwyaf o blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol offer dadansoddi sy'n darparu gwybodaeth werthfawr i helpu eich dysgwyr i werthuso pa mor llwyddiannus fu eu hymgyrch. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried y rhifau gyda'r data a grëwyd.

### 14. Gwersi a ddysgwyd

Unwaith y bydd eu hymgyrch wedi dod i ben, dylech ofyn i'ch dysgwyr weithio gyda'i gilydd i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cam cynllunio i gynnal eu hymgyrch. Petaent yn cynnal ymgyrch arall yn y dyfodol, mae nodi'r gwersi hyn yn golygu y byddant wedi nodi llwyddiannau a gwendidau eu hymgyrch ac yn gallu cymryd camau i sicrhau bod pethau'n mynd yn well y tro nesaf.

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Beth yw negeseuon a nodau allweddol eich ymgyrch?
- Pwy yw eich cynulleidfa darged?
- Pa fath o gynnwys y bydd angen i chi ei greu?
- Sut byddwch yn sicrhau bod eich ymgyrch yn parhau heb rwystrau?
- A yw eich ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Lluniwch y testun ar gyfer eich dysgwyr – gofynnwch iddynt ddod o hyd i ddelwedd briodol yn unig.
- Cyfeiriwch ymgyrch eich dysgwyr – dywedwch wrthynt beth yw eu pwnc a'r negeseuon allweddol y dylent eu cyflwyno.
- Peidiwch â gofyn iddynt ddadansoddi'r data a grëwyd o'r ymgyrch.

### Mwy o sialens

- Gofynnwch i'ch dysgwyr gyflwyno amrywiaeth o syniadau ar gyfer yr ymgyrch y gallwch ddewis ohonynt.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr baratoi adroddiad neu gyflwyniad ar lwyddiant yr ymgyrch gan ddefnyddio'r data a gafwyd o'r ddadansoddeg.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

- **Cynllun gweithgaredd – Animeiddio natur drwy animeiddio stop-symudiad**. A all eich dysgwyr greu animeiddiad stop-symudiad i'w rannu fel rhan o'r ymgyrch?
- **Creu flog amgylcheddol – a hoffai eich dysgwyr fod yn ddylanwadwyr natur?** Gofynnwch i'ch dysgwyr rannu eu syniadau ar bwnc amgylcheddol penodol, gan alw ar eraill i weithredu neu nodi newidiadau ym myd natur.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government